# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 16eg o Hydref 2023 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Alan H. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Richard Jones Evans, Geraint Evans, Geraint Edwards, Richard C Evans, Arwel Pierce

1. Ymddiheuriadau: Yr oedd pob un cynghorydd yn bresennol

2. Datgan diddordeb: Cynghorydd Richard Jones Evans - Eitem 8 - buddiant sydd yn rhagfarnu - aelod agos o'i deulu wedi cyflwyno'r cais cynllunio

3. Derbyn cofnodion 18 Medi 2023:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir gydag un cywiriad, sef Cyfoeth Naturiol Cymru oedd y corff dan sylw yn adroddiad y Cynghorydd Sir, nid Dŵr Cymru.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Scrubadub | Pafiliwn | 101861 | £60.00 |
| Scottish Power | Pafiliwn | 101862 | £225.22 |
| J.K.Jones | Torri gwair | 101863 | £1,404.00 |
| B Gwilym | Cyflog | 101864 | £210.06 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101865 | £52.60 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod, gan dalu hanner anfoneb Scrubadub yn dilyn negodi'r swm yn dilyn gwaith anfoddhaol.

5. Mabwysiadu Adroddiad Bioamrywiaeth:

**PENDERFYNIAD:** I fabwysiadu'r polisi gydag un gwelliant sef cyflwyno cais i Gyngor Gwynedd gynnal adolygiad o'r trefniant torri gwair wrth ymyl y ffordd yn y pentref ac adrodd yn ôl.

6. Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Cyfreithiol - Rhybudd cau ffordd di-ddosbarth ym Mryncrug ger hawl tramwy rhif 6:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio – Fferm Geufron, Bryncrug, LL36 9RW (NP5/55/46H):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad, gan gyflwyno sylw nad oes cynlluniau ar bapur wedi ei dderbyn gan APCE.
I gynnig sylwadau bod Cyngor Cymuned Bryncrug yn dymuno derbyn copïau caled o'r ceisiadau cynllunio ac i addasu'r drefn e-bost er mwyn caniatáu mynediad un clic i'r cais dan sylw.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Fferm Cynfal, Bryncrug, LL36 9RB (NP5/55/11N):

Bu i'r Cynghorydd Richard Jones Evans ddatgan buddiant sydd yn rhagfarnu a bu iddo adael y cyfarfod.

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad.

Bu i'r Cynghorydd Richard Jones Evans ddychwelyd i'r cyfarfod.

9. Hunaniaith - holiadur iaith:

Nodwyd bod Hunaniaith rŵan wedi gadael Cyngor Gwynedd ac mai Menter Iaith Gwynedd yw enw'r corff

Y cwestiynau

-Enw'r Cyngor - Ateb - Cyngor Cymuned Bryncrug
-Beth yw defnydd eich cyngor o'r Gymraeg ar hyn o bryd - Ateb - Popeth yn uniaith Gymraeg gan gynnwys iaith y cyfarfodydd a'r cofnodion
-Sawl sedd sydd ar eich cyngor - Ateb - 9
-Sawl cynghorydd sydd yn eistedd ar y cyngor ar hyn o bryd - Ateb - 7
-Sut fydd eich cyngor yn ymdopi gydag aelodau sy'n methu dilyn trafodaeth yn Gymraeg - Ateb - Bydd cynghorydd su'n medru'r Gymraeg yn eistedd gyda'r aelod di-gymraeg i sibrwd dehongliad iddynt
-Pa gefnogaeth fyddai ei angen ar eich cyngor i sicrhau fod y Gymraeg yn cadw ei statws a'r lefel defnydd sydd ohoni ar hyn o bryd - Ateb - Cyfieithu ar y pryd am ddim
-Mae Menter Iaith Gwynedd am ddatblygu cynllun peilot fydd yn cefnogi rhai cynghorwyr tref neu gymuned i ddysgu Cymraeg ac i ddod yn rhan o'r gymuned Gymraeg. Fyddai diddordeb gan eich cyngor i fod yn rhan o'r peilot - Ateb - Na fyddai

**PENDERFYNIAD:** I ymateb yr holiadur fel sydd wedi ei nodi uchod.

10. Un Llais Cymru - Pecyn perllan gymunedol am ddim:

**PENDERFYNIAD:** I gyflwyno cais am becyn perllan gymunedol.

11. Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Tref Tywyn - Afon Fathew/pryder am lifogydd - diweddariad:

Nid oedd diweddariad.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

12. Ysbyty Tywyn a'r Cylch – cau ward cleifion mewnol dros dro - diweddariad:

Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Bethan Lawton:
-Yn parhau i gael cyfarfodydd misol gyda'r Bwrdd Iechyd
-Tri meddyg teulu wedi datgan diddordeb mewn dod i Dywyn
-Staff Asiant yn parhau i gael eu cyflogi am ychydig o fisoedd yn ychwanegol
-Tair swydd yn y dderbynfa yn wag
-Rheolwr practis y feddygfa yn gadael a'r bwrdd iechyd angen hysbysebu
-Wedi recriwtio un nyrs lefel 7, gyda'r unigolyn wedyn yn tynnu'r cais yn ôl
-Angen tri nyrs lefel 5 ac un nyrs lefel 7 er mwyn medru ail-agor y ward
-Bwriad ail-agor y ward cyn y Nadolig gyda dwy nyrs o India yn cyrraedd Tywyn
-Gwasanaeth Tuag Adref yn parhau
-Uned man anafiadau wedi bod yn llwyddiannus
-Yn ceisio denu nyrsys sydd ar hyfforddiant yn Aberystwyth

Nodwyd bod Mabon ap Gwynfor AS wedi llunio holiadur iechyd a bod yr holiadur yn cael ei ddosbarthu o ddrws i ddrws. Nodwyd hefyd bod Tywyn Action Group yn cyfarfod ym mis Tachwedd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

13. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-Angen darlleniad o'r mesurydd trydan
-Angen glanhau'r Pafiliwn
-Un o'r rhwystrau yn rhydd wrth y ffens
-Toiled yr anabl wedi ei flocio

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I ofyn am ddiweddariad gan Gyngor Gwynedd a chyfreithiwr y cyngor cymuned ar y trosglwyddiad tir i Elusen Dolgoch.

14. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol:
-Modurwyr i weld yn gyrru drwy'r pentref ar gyflymder o 30mya yn lle 20mya

-Cyngor Gwynedd yn edrych ar doriadau gwasanaeth gyda diffyg ariannol gwerth £6.5 miliwn
-Gweithdai toriadau yn cael eu cynnal i gynghorwyr a rhagwelir toriadau mawr i wasanaethau cyhoeddus blwyddyn nesaf

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I gyflwyno cais i Gyngor Gwynedd sefydlu parth 30mya ar yr A493 o ddau gyfeiriad cyn i'r cyflymder ddod i 20mya. Y terfyn cyflymder presennol yn mynd o 60mya i 20mya

15. <u>Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:</u>

Trafodwyd archwiliad mewnol y cyngor a bod Swyddfa Archwilio Cymru eisiau copïau o ddogfennau sydd eisoes wedi eu hanfon atynt.

Nodwyd bod cyfarfodydd Ambiwlans Awyr yn cael eu cynnal ac anogwyd cynghorwyr i gymryd rhan.

**PENDERFYNIAD:** I ddarparu copïau o'r dogfennau i Swyddfa Archwilio Cymru fel mater o frys.
I roi Dŵr Cymru fel eitem ar agenda mis nesaf.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:15pm

Llofnod y Cadeirydd ............................................................